The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Harbyrau 1964:

## Gorchmynion Diwygio Harbyrau Adran 14

## Gorchmynion Grymuso Harbyrau Adran 16

**Canllaw i'r Gweithdrefnau yng Nghymru**
**2018**

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r canllaw hwn yn esbonio wrth ymgeiswyr a phartïon eraill sydd â diddordeb sut i wneud cais am Orchymyn Diwygio Harbwr (HRO) a Gorchymyn Grymuso Harbwr (HEO) yng Nghymru, o dan adrannau 14 neu 16 Deddf Harbyrau 1964. Rhaid cofio mai canllaw ydyw ac y dylai unrhyw ymgeisydd fynd ar ofyn ei gyngor cyfreithiol ei hun cyn gwneud cais.

## Rôl Llywodraeth Cymru

1.2. Yn sgil y newidiadau i Ddeddf Harbyrau 1964 gan Ddeddf Cymru 2017, Gweinidogion Cymru sydd bellach yn gyfrifol am roi gwahanol fathau o orchmynion harbwr, gan gynnwys:

- Gorchmynion Diwygio Harbyrau Adran 14 (HRO)
- Gorchmynion Grymuso Harbyrau Adran 16 (HEO)

1.3. Caiff y cyfrifoldeb am weithdrefn y gorchmynion harbyrau ei rannu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac mewn achosion penodol, ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru (yr Arolygiaeth). Y tîm Polisi Porthladdoedd fydd yn gyfrifol am weithdrefn gorchmynion na cheir darpariaethau ynddynt sy'n ymwneud â gwaith ac a restrir yn Atodiad A. Dyma fanylion cysylltu â'r Tîm Polisi Porthladdoedd:

Tîm Polisi Porthladdoedd
Cysylltedd Trafnidiaeth a Ddigidol
Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: AviationPortsAndLogistics@gov.wales

## Rôl Arolygiaeth Gynllunio Cymru

1.4. Un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru yw'r Arolygiaeth Gynllunio. Penodir aelodau'r Arolygiaeth gan Weinidogion Cymru i gyflawni rhannau gweithdrefnol rhai swyddogaethau o dan Ddeddf Harbyrau 1964 ("y Ddeddf") sy'n ymwneud â gorchmynion "gwaith" harbyrau o dan baragraff 7, 7A, 7B ac 17 Atodlen 2 y Ddeddf. Fe'u disgrifir yn rhan 2 Atodiad A y canllaw hwn. Dyma fanylion cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio:

Tîm Gwaith Achos Arbenigol
Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

## Gorchmynion Diwygio Harbyrau Adran 14 (HRO)

1.5. Caiff awdurdod harbwr neu berson neu gorff sy'n cynrychioli pobl sydd â budd sylweddol yn yr harbwr, wneud cais am orchymyn o dan adran 14 i wella, cynnal a chadw neu reoli harbwr wrth arfer a chyflawni ei bwerau a'i ddyletswyddau statudol. Rhaid i'r gorchymyn ddod â budd i'r harbwr a gellir ei roi er mwyn cyflawni'r amcanion a nodir yn Atodlen 2 Deddf 1964, neu rai ohonynt. Gall HRO estyn neu newid pwerau statudol a/neu awdurdodi gwaith. O ran Gorchmynion Diwygio Harbyrau o dan adran 14(2) y Ddeddf, ni chaiff gorchymyn o'r fath ei wneud mewn cysylltiad â harbwr oni bai bod Gweinidogion Cymru'n fodlon y byddai gwneud gorchymyn o'r fath yn ddymunol o ran gwella, cynnal a chadw neu reoli'r harbwr mewn ffordd effeithiol a darbodus neu i hwyluso cludo nwyddau neu deithwyr ar y môr mewn ffordd effeithiol a darbodus.

### Gorchmynion Grymuso Harbyrau Adran 16 (HEO)

1.6. Caiff unrhyw berson sydd am wella, cynnal a chadw neu reoli harbwr, neu adeiladu harbwr newydd y mae'n gofyn am bwerau statudol ar ei gyfer lle nad oes pwerau'n bod, wneud cais am orchymyn o dan adran 16.

1.7. Caiff unrhyw un sydd am wneud unrhyw rai o'r uchod wneud cais am un o'r gorchmynion hyn. At bwrpas y canllaw hwn, cyfeirir at orchmynion diwygio harbyrau o dan adran 14 a gorchmynion grymuso harbyrau o dan adran 16 ill dau fel gorchmynion harbyrau.

## 2. Cydsyniadau Eraill

2.1. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod ganddo bob caniatâd sydd ei angen cyn dechrau ar y gwaith dan sylw.

2.2. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth yn fodlon ystyried alinio cais am orchymyn harbwr â cheisiadau am gydsyniadau eraill sydd eu hangen. Gallai hynny gynnwys cais i Cyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Forol neu i'r awdurdod lleol perthnasol am Ganiatâd Cynllunio [os nad yw'r gwaith yn 'ddatblygiad a ganiateir' a awdurdodir gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd)].

2.3. Os bydd angen cydsyniadau eraill ar y cynnig, byddwn yn gweithio gyda'r cyrff caniatáu eraill a lle gallwn, yn cytuno ar ffordd i gynnal asesiad amgylcheddol ar y cyd a chyhoeddi un ymateb sgrinio a chwmpasu rhyngom ar gyfer un Datganiad Amgylcheddol fydd yn ymdrin â phob agwedd ar y prosiect.

2.4. Rydym yn argymell ymgeiswyr i gydweithio fel hyn er mwyn osgoi gorfod rhoi'r un wybodaeth fwy nag unwaith.

## 3. Y Cam Cyn Ymgeisio

3.1. Gallwch ofyn am gyngor cyn ymgeisio. Gall hwnnw gynnwys cyngor 'heb ragfarn' ar rinweddau'r gorchymyn yn ogystal â chyngor ar drefn y broses.

# 4. Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cais

4.1. Yn unol ag Atodlen 3, paragraff 3 y Ddeddf, ni chaiff person wneud cais am orchymyn harbwr sydd, boed yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn awdurdodi unrhyw brosiect oni bai bod y person hwnnw wedi rhoi hysbysiad ffurfiol ysgrifenedig o'i fwriad i gyflwyno cais. Dylech roi'r hysbysiad cyn gynted byth ag y medrwch a rhaid iddo nodi enw'r Harbwr a natur y cynnig.

4.2. Cyn cyflwyno cais, rydyn ni'n eich annog i drefnu cyfarfod i roi gwybod i'r Arolygiaeth/y tîm Polisi Porthladdoedd am eich bwriad, ac i drafod y broses a'ch gofynion.

4.3. Gan ddibynnu ar natur y gorchymyn, bydd yr Arolygiaeth neu'r tîm Polisi Porthladdoedd yn ymateb yn ysgrifenedig i ddweud a oes angen asesu effeithiau amgylcheddol y cynnig gan roi'r rhesymau dros ei benderfyniad. Bydd yr ymateb yn cynnwys yr hyn y dylai'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ymdrin ag ef, o bosib ar ôl siarad â chyrff amgylcheddol eraill. Ni chewch gyflwyno cais nes ichi gael yr ymateb hwn.

# 5. Ymgynghori Cyn Ymgeisio

## Pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar

5.1. Mae'r cyfnod cyn y cais yn rhan hanfodol o'r broses ymgeisio am orchymyn harbwr. Yn hynny o beth, rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i siarad yn gynnar yn y broses gyda'r Arolygiaeth/y tîm Polisi Porthladdoedd a chyda rhanddeiliaid eraill cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol cyn ymgeisio. Fel proses lle bo'n rhaid ymgysylltu, ymgynghori a chynnal unrhyw asesiad amgylcheddol sydd ei angen cyn gwneud cais, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael cyngor amserol a defnyddiol ar yr hyn mae'n ofynnol iddynt ei wneud a phryd.

5.2. Mae ymgysylltu cyn hysbysu yn hanfodol i gynnal y broses ceisio am orchymyn harbwr yn effeithiol. Mae ymgysylltu trylwyr ac ystyrlon gyda chymunedau, awdurdodau cynllunio lleol, ymgyngoreion statudol a phartïon eraill sydd â buddiant yng nghyfnodau cynnar prosiect yn rhoi cyfle i ddatblygwyr oresgyn materion na fyddent fel arall yn dod i'r amlwg tan yr ymgymerir â'r ymgynghoriad ffurfiol cyn ymgeisio ymhellach ymlaen yn y broses. Yn ogystal, dylai prosesau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) a'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd (ARC) fod yn debyg i'w gilydd ac wedi'u hintegreiddio'n dda â'r ymgysylltu cyn ymgeisio a'r ymgynghoriad ffurfiol cyn ymgeisio.

5.3. Yn fuan yn y broses, dylai ymgeiswyr ystyried a yw cyrff eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gofyn am drwyddedau neu gydsyniadau. Dylai ymgeiswyr anelu at gyflwyno ceisiadau eraill yr un pryd â'u gorchymyn harbwr. O beidio ag ystyried a oes angen trwyddedau neu gydsyniadau eraill tan yn hwyr yn y broses, gallai hyn beri risg sylweddol i'r ymgeiswyr, gan y gallai'r trwyddedau neu'r cydsyniadau hyn

ofyn am newid y datblygiad arfaethedig, a hefyd i Weinidogion Cymru, o ystyried eu dyletswyddau o dan y Rheoliadau Cynefin.

5.4. Yng ngoleuni’r uchod, rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i ymchwilio i'r arfer gorau a'u dilyn, wrth ymgynghori cyn ymgeisio ac wrth ymgynghori'n ffurfiol ar y cais.

5.5. Cyn cyflwyno'r cais, rydyn ni'n cynghori'r ymgeisydd i ymgynghori ar y cais am gyfnod o chwe wythnos o leiaf.

5.6. Dylai ymgeiswyr ymgynghori yn fuan yn y broses ac mor eang â phosib yn yr ardal, yn enwedig os gallai'r gwaith effeithio ar yr amgylchedd neu gymunedau lleol. Gellid ymgynghori â:

- yr awdurdod lleol perthnasol
- cymunedau lleol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
- Awdurdodau harbwr perthnasol eraill

5.7. Dylai ymgeiswyr o leiaf:

- Ymgynghori **ag aelodau penodol o'r gymuned, arbenigwyr penodol** ac unrhyw **bobl berthnasol eraill** (gweler Atodiad B),
- Rhoi **rhybudd ysgrifenedig i berchenogion neu feddianwyr** tir sy'n ffinio â'r safle, ac
- Arddangos **hysbysiadau** mewn o leiaf un lle ar neu wrth ymyl y safle.

5.8. Bydd union natur yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd yn amrywio, gan ddibynnu ar y cynnig. Gallwch ofyn am gyngor ynghylch pwy i ymgynghori â nhw a sut.

5.9. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ymgeisydd yn paratoi Adroddiad Ymgynghori i esbonio sut y bu iddo ymgynghori ar y cynnig, yr ymatebion a ddaeth i law a sut y mae wedi ystyried yr ymatebion hynny.

# 6. Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (EIA)

6.1. Pan fydd gorchymyn "gwaith" harbwr yn grymuso prosiect sy'n gymwys o dan y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (85/337/EEC) ar asesu effeithiau rhai prosiectau ar yr amgylchedd, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y gofyn i ddarparu Datganiad Amgylcheddol (ES). Bydd y Datganiad yn asesu effeithiau'r cynnig ar yr amgylchedd yn unol â'r weithdrefn a ddisgrifir yn Atodlen 3 Deddf 1964.

6.2. Mae'r Gyfarwyddeb yn categoreiddio prosiectau gwaith yn atodiad I ac atodiad II. Mae Atodiad I yn rhestru'r prosiectau y mae'n rhaid Asesu eu Heffaith ar yr Amgylchedd. Mae Atodiad II yn rhestru'r prosiectau y mae angen Asesu eu Heffaith ar yr Amgylchedd os bydd eu heffaith ar yr amgylchedd yn debygol o fod fawr.

6.3. Weithiau, bydd angen amser mawr i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer Datganiad Amgylcheddol (gweler paragraff 8 Atodlen 3 Deddf 1964) a chynghorir ymgeiswyr i holi barn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a chyrff

amgylcheddol eraill yn fuan ac i ofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio am benderfyniad sgrinio yn fuan wedi dechrau datblygu'u cynigion er mwyn osgoi gwneud gwaith ofer.

6.4. Os penderfynir bod angen asesu'r effaith amgylcheddol, caiff barn gwmpasu ei rhoi, fydd yn dangos i'r ymgeisydd pa bynciau y dylai'r Datganiad Amgylcheddol ymdrin â nhw. Wrth ystyried a oes angen cynnal asesiad, bydd yr Arolygiaeth yn holi barn CNC, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac unrhyw gyrff eraill allai fod yn briodol.

6.5. Bydd Datganiad Amgylcheddol anghyflawn na fydd yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y farn gwmpasu yn arafu'r broses ac efallai y bydd angen cynnal ymgynghoriad arall ar ôl ei orffen/newid.

6.6. Bydd yr Arolygiaeth yn ystyried hefyd a fydd angen Asesiad Priodol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 sy'n rhoi gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) ar waith. Hon yw'r drefn sy'n creu safleoedd Ewropeaidd ar sail eu pwysigrwydd fel cynefinoedd naturiol.

6.7. Mae'r rheoliadau hyn yn gofyn ichi ystyried unrhyw brosiect o safbwynt ei effaith ar safle Ewropeaidd. Os bydd yr effaith yn debygol o fod yn fawr, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal Asesiad Priodol o'r goblygiadau i'r safle. Diben yr asesiad hwn yw gweld a fydd y prosiect, ar ôl ymgorffori mesurau lliniaru, yn debygol o gael effaith ddrwg ar integriti'r safle. Efallai y gofynnir am wybodaeth ar gyfer gallu cynnal Asesiad Priodol hyd yn oed os nad oes angen Datganiad Amgylcheddol.

6.8. Os gwelir y bydd effeithiau drwg yn debygol, ni chaiff y prosiect ei gymeradwyo onid oes ateb arall, oni bai bod rhesymau cryf iawn er lles budd y cyhoedd dros gynnal y prosiect, ac oni bai'ch bod yn dilyn mesurau cydbwyso sy'n diogelu cydlyniaeth gyffredinol y safleoedd Ewropeaidd.

### Gorchmynion drafft

6.9. Mae tîm Polisi Porthladdoedd Llywodraeth Cymru yn cael cynnig sylwadau anffurfiol ar orchmynion drafft ond bydd yn gwneud fel y gwêl yn dda. Rydyn ni'n eich cynghori i amgáu nodyn sy'n esbonio'ch rhesymau dros geisio pob un o'r pwerau yn y gorchymyn, gan gynnwys cyfeirio at y paragraff perthnasol yn Atodlen 2 Deddf 1964, gyda'ch gorchymyn drafft. Holwch y tîm Polisi Porthladdoedd am ragor o wybodaeth.

## 7. Ceisiadau Ffurfiol

7.1. Gyda'r cais am orchymyn harbwr, rhaid cyflwyno:

- Chwe chopi o'r gorchymyn drafft;
- Chwe chopi o unrhyw fap i'w atodi wrth y gorchymyn pe bai'n cael ei wneud fel y mae yn ffurf y fersiwn ddrafft;
- Y ffi mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdani; a
- Lle bo angen, datganiad amgylcheddol sydd â'r wybodaeth a nodir uchod ynddo.

7.2. Yn ogystal â chyflenwi copïau caled o'r dogfennau gofynnol, rhaid cyflwyno hefyd gopi electronig o ddogfennau'r cais.

7.3. Hefyd, dylech gyflwyno datganiad sy'n esbonio pam mae angen y gorchymyn harbwr, sut y mae'n bodloni amcanion polisi Llywodraeth Cymru a sut ydych yn bodloni'r gofynion a ddisgrifir yn y Ddeddf. Dylech gynnwys hefyd nodyn sy'n disgrifio'r rheswm dros geisio am bob un o'r pwerau yn y gorchymyn harbwr, gan gynnwys cyfeiriad at y paragraff perthnasol yn Atodlen 2 y Ddeddf.

7.4. Ewch i Atodiad C y canllaw hwn i weld rhestr o'r gofynion hyn.

## 8. Ffïoedd

8.1. Mae gan Weinidogion Cymru raddfa sefydlog o ffïoedd ar gyfer prosesu gorchmynion harbwr. Rhaid talu'r ffi pan wneir cais ysgrifenedig ffurfiol am orchymyn. Ar hyn o bryd, dyma yw'r ffïoedd:

- £2,000 am orchymyn nad oes diben arall iddo heblaw newid pwerau benthyca awdurdod;
- £4,000 am unrhyw orchymyn nad yw'n rhoi'r grym i awdurdod wneud gwaith;
- £6,000 am orchymyn sy'n benodol yn rhoi grym i awdurdod wneud gwaith lle nad oes angen asesu ei effaith ar yr amgylchedd.
- £10,000 am orchymyn sy'n benodol yn rhoi grym i awdurdod wneud gwaith lle penderfynir bod angen asesu ei effaith ar yr amgylchedd.

8.2. Dylid talu trwy BACS. Dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Arolygiaeth i gadarnhau manylion eu banc a'r cyfeirnod ar gyfer talu trwy BACS.

8.3. Ni chaiff eich cais ei brosesu nes y byddwch yn talu'r ffi'n llawn.

## 9. Hysbysiadau Cyhoeddus

9.1. Unwaith y caiff cais am orchymyn harbwr ei wneud, bydd angen i'r ymgeisydd drefnu bod hysbysiad ynghylch y cais yn cael ei roi unwaith yn y London Gazette ac unwaith yr wythnos am bythefnos yn un neu fwy o bapurau newydd lleol sydd â chylchrediad eang. Mewn rhai achosion, efallai y byddwch hefyd yn cael eich cyfeirio i ddarparu copïau o'r cais i gyrff penodol.

9.2. Rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â gofynion paragraff 10 o Atodlen 3 y Ddeddf ac argymhellir eich bod yn cytuno ar eiriad yr hysbysiadau â'r Arolygiaeth cyn eu cyhoeddi. Bydd gofynion hysbysebu pellach ambell waith, er enghraifft, os bydd y gorchymyn harbwr yn awdurdodi cau hawl dramwy gyhoeddus. Os na fydd eich hysbysiad yn bodloni gofynion y Ddeddf, gellir gofyn ichi ailhysbysebu'r cais.

9.3. Rhaid i'r ymgeisydd anfon copi o bob cyhoeddiad â'r hysbysiad ynddo at yr Arolygiaeth cyn gynted ag y medrir.

9.4. Bydd y tîm Polisi Porthladdoedd a'r Arolygiaeth yn ymgynghori â pha bynnag gyrff y gwelant yn dda.

# 10. Gwrthwynebiadau a Sylwadau

## Cofrestru Gwrthwynebiad neu Sylw

10.1. Os bydd corff neu unigolyn am wrthwynebu gorchymyn harbwr neu wneud sylw amdano, rhaid iddo wneud hynny yn ystod y cyfnod statudol o 42 diwrnod a ganiateir i wrthwynebu neu i wneud sylw. Rhaid i bob gwrthwynebydd esbonio'i resymau dros wrthwynebu.

10.2. Os derbynnir gwrthwynebiad o fewn y cyfnod statudol yna gellir gwahodd gwrthwynebwyr i gyflwyno tystiolaeth bellach yn ystod y broses ysgrifenedig ac os bydd ymchwiliad i'w gynnal, cyflwyno eu hachos mewn ymchwiliad.

10.3. Caiff unrhyw unigolyn neu gorff wrthwynebu gorchymyn harbwr, ond os ceir llawer o bobl sy'n gwrthwynebu am yr un rhesymau, byddem yn argymell eu bod yn cydweithio os medrant ac yn gwrthwynebu ar ran cymuned leol neu grŵp trigolion. Dylent ddod at ei gilydd hefyd mewn ymchwiliad, a dewis unigolyn i siarad ar ran y grŵp er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn rhedeg yn esmwyth ac i osgoi ailadrodd.

## Penderfynu ar Wrthwynebiadau

10.4. Os ceir gwrthwynebiad i orchymyn harbwr, mae'n arferol i'r ymgeisydd drafod â'r gwrthwynebwyr er mwyn delio â'r gwrthwynebiad. Caiff y gwrthwynebiad ei basio i'r ymgeisydd er mwyn i'r trafodaethau allu parhau tan ei fod yn cael ei ddatrys neu tan nad oes diben trafod ymhellach.

10.5. Nid oes amserlen bendant ar gyfer y rhan hon o'r broses a bydd yn dibynnu ar natur a maint y gwrthwynebiadau a ddaw i law. Bydd yr Arolygiaeth yn cytuno fel arfer â'r ymgeisydd ar amserlen i adolygu statws y gwrthwynebiadau ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod. Gellir tynnu gwrthwynebiad yn ôl unrhyw bryd trwy lythyr.

10.6. Oherwydd rhan yr Arolygiaeth i sicrhau proses ymgeisio ddiduedd a pharatoi Adroddiad Argymhellion ar orchmynion "gwaith", ni fyddai'n briodol i'r Arolygiaeth fod â rhan yn y trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr. Bydd y tîm Polisi Porthladdoedd yn parhau i weithio â'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr i gytuno ar ateb boddhaol ar gyfer gorchmynion gwaith a gorchmynion eraill.

# 11. Yr Iaith Gymraeg

11.1. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y Gymraeg yn bwysig yn y broses o adeiladu cenedl lle gall pobl ymfalchïo yn eu cymunedau, yn eu hunaniaeth fel Cymry ac yn yr iaith ac yn ein lle yn y byd. Mae deddfwriaeth yng Nghymru'n cael ei gwneud yn y Gymraeg a'r Saesneg.

11.2. Rhaid i ymgeiswyr felly gyflwyno gorchymyn harbwr dwyieithog. Mae hynny'n cynnwys y ffurf ddrafft wrth gynnal yr ymgynghoriad yn ogystal â'r fersiwn derfynol y bydd Gweinidogion Cymru yn ei hystyried.

11.3. Mae'r Arolygiaeth a'r tîm Polisi Porthladdoedd yn sylweddoli hefyd bod cwsmeriaid yn gallu mynegi eu barn yn well yn yr iaith y mae'n well ganddynt ei defnyddio. O'r herwydd, byddwn yn croesawu pob gohebiaeth, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg.

11.4. Mae croeso i bobl siarad Cymraeg mewn digwyddiadau a drefnir ar ran yr Arolygiaeth. Rhag gorfod gohirio digwyddiadau neu eu harafu, byddai'n ddefnyddiol pe bai unrhyw un sydd am siarad Cymraeg yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth ymlaen llaw er mwyn i gyfleusterau cyfieithu allu cael eu trefnu.

## 12. Dadansoddi a Phenderfynu

12.1. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y cais. Os bu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn gwneud argymhelliad ar ffurf adroddiad a fydd wedi ystyried yr holl wybodaeth gerbron. Bydd hynny'n cynnwys dogfennau'r cais, ymatebion y rhai a holwyd, sylwadau'r cyhoedd, gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys ac adroddiadau'r ymchwiliad. Bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried argymhellion yr Arolygydd wrth benderfynu p'un ai i roi gorchymyn neu beidio.

12.2. Bydd y tîm Polisi Porthladdoedd yn anfon copi o benderfyniad Gweinidogion Cymru at bawb sydd wedi gwrthwynebu'r gorchymyn neu sydd wedi gwneud sylw yn ei gylch. Caiff y penderfyniad ac adroddiad yr Arolygydd eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

12.3. Os caiff mân newidiadau eu gwneud yn y rhan hon o'r broses nad ydyn nhw'n newid natur y gorchymyn, cysylltir â'r ymgeisydd, ac os yw'n derbyn y newidiadau, gofynnir iddo gyflwyno drafft diwygiedig. Os gofynnir am newidiadau manylach, efallai na fydd Gweinidogion Cymru'n gallu penderfynu ar y gorchymyn tan i'r newidiadau gael eu gwneud. Os gofynnir am newidiadau sylweddol sy'n newid natur y gorchymyn, efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ofyn i ymgeiswyr ail-ymgynghori ar y cynnig.

12.4. Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu gwneud gorchymyn, caiff llythyr penderfynu ei roi i'r ymgeisydd, a chaiff copi ohono ei anfon hefyd at unigolion a chyrff eraill fel y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda.

12.5. Os bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu peidio â gwneud gorchymyn, caiff llythyr penderfynu ei roi i'r ymgeisydd ac i unigolion neu gyrff eraill fel y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda.

## 13. Hysbysiad Penderfynu ar Orchymyn Harbwr

13.1. Rhaid i'r ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad cadarnhau yn y London Gazette ac yn yr un papurau newydd â'r hysbysiad gwreiddiol, i ddweud bod y gorchymyn harbwr wedi'i wneud, ble y cewch weld copi o'r gorchymyn, pryd y daw'r gorchymyn i rym a sut i herio dilysrwydd y gorchymyn.

13.2. Dylai'r ymgeisydd anfon copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd at yr Arolygiaeth cyn gynted ag y gall ar ôl ei gyhoeddi.

## 14. Gweithdrefnau Seneddol

14.1. O dan adran 54 Deddf 1964, ar ôl i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad, caiff y gorchymyn ei roi trwy offeryn statudol a gallai gael ei ddiddymu trwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 15. Sut ydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol

15.1. Gall yr ymgeisydd, ymgyngoreion statudol a phobl sy'n gwneud sylwadau roi data personol i ni. Mae'r data personol fel arfer yn cynnwys enw a manylion cysylltu ac unrhyw ddata personol eraill sydd wedi'u cynnwys yn eu cyfathrebiad. Bydd y tîm Arolygiaeth a Phorthladdoedd yn copïo'r sylwadau a dderbyniwyd i'r ymgeisydd.

15.2. Bydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi yr holl ddogfennau apêl a chynrychioliadau, gan gynnwys enwau a chyfeiriadau, yn cael eu cyhoeddi ar y Porth Gwaith Achos Apeliadau.

## 16. Rhagor o wybodaeth

16.1. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am bolisi polisïau preifatrwydd Llywodraeth Cymru a Chynllunio Arolygiaeth Gynllunio yn http://planninginspectorate.gov.wales/?skip=1&lang=cy a http://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/privacystatement/?skip=1&lang=cy neu ar gael ar gais. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am bolisi'r Arolygiaeth, neu os hoffech ofyn am eich data personol, yna cysylltwch â'r Arolygiaeth.

## Atodiad A - Rhestr o'r Ymgyngoreion

| **Ymgyngoreion** |
|---|
| • Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau<br>• Trinity House - General Lighthouse Authority<br>• Cangen Polisi Morol (Llywodraeth Cymru)<br>• Trafnidiaeth Cymru (Llywodraeth Cymru) (pan effeithir ar y ffyrdd/rheilffyrdd)<br>• Ystad y Goron<br>• Awdurdod Cynllunio Lleol<br>• Awdurdod Priffyrdd Lleol<br>• Cymunedau Lleol<br>• Awdurdodau Harbyrau eraill<br>• Awdurdod yr Harbwr (os nad yr ymgeisydd yw hwnnw)<br>• Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br>• Y Gymdeithas Cadwraeth Forol<br>• Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar Cymru<br>• Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu<br>• Awdurdod Cadwraeth Pysgodfeydd y Glannau<br>• Royal Yachting Association<br>• Cymdeithas Porthladdoedd Prydain<br>• Prif Grwpiau Porthladdoedd Prydain<br>• UK Chamber of Shipping |

## Atodiad B - Rhestr i'w Chofio

**Rhestr ymgeisio**

- Copi electronig o'r holl ddogfennau ymgeisio - gorchymyn drafft mewn word.
- 6 chopi caled o unrhyw fapiau neu blaniau sy'n fwy nag A3.
- Un copi caled o'r Datganiad Amgylcheddol ac unrhyw ddogfennau ategol os cafodd ei sgrinio, yn ôl y gofyn.
- Copi electronig o'r Datganiad Amgylcheddol a'r dogfennau ategol (ar CD neu gof bach)
- Nodyn yn esbonio pwrpas ac effeithiau'r holl ddarpariaethau yn y gorchymyn drafft, i esbonio pam eich bod am gael pob un o'r pwerau a phwrpas pob un.
- Arolwg o gyflwr a/neu gynlluniau cynnal a chadw a'u costau os yw'n awdurdod newydd neu'n orchymyn trosglwyddo.

**Llythyr ymgeisio sy'n cadarnhau:**

- enw cyfreithiol yr ymgeisydd (a'ch budd os nad chi yw awdurdod yr harbwr).
- adran Deddf Harbyrau 1964 y mae'r gorchymyn yn cael ei wneud trwyddi.
- amcanion ceisio am y gorchymyn (HRO yn unig - atodlen 2 y Ddeddf)
- pwrpas cyffredinol y gorchymyn rydych yn ceisio amdano.
- cadarnhau pryd y bydd yr hysbysiad cyntaf yn ymddangos yn y wasg.
- y ffi berthnasol.